Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**
—
Welsh Parliament
**Finance Committee**

Mark Drakeford AS
Y Prif Weinidog

Dyddiad: 18 Tachwedd 2020

Annwyl Brif Weinidog,

Yn ddiweddar fe wnaethom ysgrifennu at Jeremy Miles AS, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd, yn ei wahodd i fod yn bresennol mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid mewn cysylltiad â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22. O ystyried rôl y Cwnsler Cyffredinol yn cydgysylltu adferiad Cymru o bandemig COVID-19 ac wrth gydgysylltu'r gwaith ar gyfer ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd, teimla'r Pwyllgor y gallai ef ddarparu tystiolaeth werthfawr i gynorthwyo ein gwaith o graffu ar y gyllideb ddrafft.

Ymatebodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru gan ddweud fod hyn y tu allan i bortffolio'r Cwnsler Cyffredinol o gofio nad yw ef bellach yn atebol am y gwaith yn ymwneud â'r adferiad ar ôl COVID, sydd wedi symud i'r Gweinidogion portffolio i'w gyflawni. Mae hyn hefyd yn wir am waith pontio'r Undeb Ewropeaidd gan fod yr elfennau gwariant unigol wedi'u lleoli'n bennaf yng nghyllidebau Gweinidogion portffolio.

Yn ystod y Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol yn y Cyfarfod Llawn ar 11 Tachwedd 2020, cadarnhaodd y Cwnsler Cyffredinol fod ei gyfrifoldebau ef o ran adferiad ar ôl COVID wedi dod i ben pan gyhoeddwyd y cynllun gweithredu ar ddechrau mis Hydref.

Fel Pwyllgor, rydym yn ansicr pa Weinidog sy'n atebol yn uniongyrchol am y gwaith adferiad ar ôl COVID. Credwn fod y gwaith hwn yn hanfodol bwysig ac rydym yn synnu nad yw sicrhau bod y cynllun gweithredu yn cael ei gyflawni yn gyfrifoldeb ar un Gweinidog penodol.

Byddem yn croesawu cael y wybodaeth ddiweddaraf am eich bwriadau o ran sut y bydd y cynllun adferiad ar ôl COVID yn cael ei gynnwys yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2021-22 a pha Weinidog fydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau llwyddiant y cynllun.

Yn gywir,



**Llyr Gruffydd AS**
**Cadeirydd**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
0300 200 6565

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.